**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**BLWYDDYN Y CYNGOR 2022-23**

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU**

**DYDDIAD: 21 Mawrth 2023**

**ADRODDIAD CYFARWYDDWR - IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A GWASANAETHAU CYMUNED**
**CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG 2022-2027**

## 1.0 DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi cyngor ar Gynllun Gweithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027 (Atodiad 1) i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gan ofyn am farn, sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor mewn perthynas â'r cynllun gweithredu cyn iddo gael ei gymeradwyo gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg.

## 2.0 ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i'r Aelodau:

2.1 Trafod y cynllun strategol ar gyfer Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027 sy'n statudol, a chynnig unrhyw argymhellion cyn iddo gael ei gymeradwyo gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg.

## 3.0 RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Strategaeth Bum Mlynedd i hwyluso a hybu'r Gymraeg yn y sir o dan Safon 145 yr Hysbysiad Cydymffurfio sydd wedi'i gyhoeddi dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Atodiad 2).

3.2 Craffu ar y broses llunio cynllun gweithredu ar gyfer Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027 a grybwyllwyd eisoes, a gafodd ei chymeradwyo gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg ym mis Hydref 2022.

## 4.0 CEFNDIR

4.1 Cymeradwyodd Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg gopi diwygiedig o Strategaeth Hybu'r Gymraeg (Atodiad 2) ar 25 Hydref 2022

fel sy'n ofynnol o dan Safon 145 o'r Hysbysiad Cydymffurfio a gafodd ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

4.2 Yn 2021, daeth Strategaeth Hybu'r Gymraeg Bum Mlynedd gyntaf y Cyngor i ben.

4.3 Yn dilyn cymeradwyaeth ym mis Ebrill 2021 gan gyn Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, cafodd Nico Cyf, sefydliad allanol sy'n arbenigo mewn cynllunio iaith, ei gomisiynu er mwyn cynorthwyo'r Cyngor wrth lunio Strategaeth Hybu'r Gymraeg wedi'i diwygio ar gyfer 2022-2027. Cafodd y strategaeth newydd ei chymeradwyo gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg ar 25 Hydref 2022.

4.4 Comisiynwyd Nico Cyf i roi cymorth i'r Cyngor hefyd wrth lunio cynllun gweithredu sy'n cefnogi gweithredu'r Strategaeth. Cytunodd Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg y byddai raid i'r cynllun gweithredu fynd trwy'r broses graffu er mwyn derbyn argymhellion cyn i'r Is-bwyllgor ei gymeradwyo.

## 5.0 Y SEFYLLFA BRESENNOL / Y CYNNIG

5.1 Fe fydd Cynllun Gweithredu 2022-2027 yn ail gynllun gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gefnogi'r Cyngor wrth gyflawni'i Strategaeth Hybu'r Gymraeg. Bydd y cynllun yma'n barhad o'r cynllun gweithredu cyntaf (2016-2021)

5.2. Bwriad yr ail Strategaeth Bum Mlynedd ydy manteisio ar y gwaith y mae'r Cyngor a’i bartneriaid wedi'i wneud i hybu a hwyluso’r Gymraeg yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

5.3 Bydd y cynllun gweithredu'n chwarae rhan wrth gefnogi amcan y strategaeth, sef cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol yn unol ag ymgyrch Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru; y garreg filltir nesaf ydy cynnydd o 5% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021.

5.4 Hefyd, bydd y cynllun gweithredu'n cydfynd â thair prif thema genedlaethol sy'n cael eu nodi yn y Strategaeth, fel a ganlyn:

➢ Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

- Trosglwyddo’r iaith yn y teulu
- Y Blynyddoedd Cynnar
- Addysg statudol
- Addysg ôl-16
- Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

➢ Thema 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg

• Yn y gweithle
• Gwasanaethau
• Defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol

➢ Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

• Y gymuned a'r economi
• Diwylliant a'r cyfryngau
• Cymru yn y byd ehangach
• Technoleg ddigidol
• Seilwaith ieithyddol modern
• Cynllunio iaith
• Gwerthuso ac ymchwil

5.5 Mae hefyd yn bwysig nodi y bydd partneriaid y Cyngor i gyd yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni'r ail Strategaeth Hybu'r Gymraeg, ac felly mae'r cynllun gweithredu wedi'i rannu'n ddwy. Mae rhan 1 yn amlinellu'r gweithgareddau a thargedau sy'n cael eu harwain gan y Cyngor, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gomisiynu gwasanaethau eraill gan sefydliadau eraill; ac ~~yn~~ Rhan 2 o'r cynllun gweithredu mae cyfle i bartneriaid gyfrannu at lwyddiant y strategaeth gyffredinol.

5.6 Ni fydd yr un goblygiadau o ran monitro a chraffu ar gyfer Rhan 2 o'r cynllun gweithredu, ond fe fydd partneriaid yn cael eu gwahodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynnydd bob blwyddyn.

## 6.0 GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH / DYLETSWYDD ECONOMAIDD GYMDEITHASOL

6.1 Mae asesiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Economaidd Gymdeithasol wedi'i gwblhau ar gyfer prif Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027, ac mae modd bwrw golwg arno yma.

## 7.0 YMGYNGHORI

**7.1** Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal yn 2021 ar gyfer y brif strategaeth ynghyd â thrafodaethau â rhanddeiliaid a gwasanaethau allweddol drwy gydol cyfnod drafftio'r cynllun gweithredu newydd.

## 8.0 GOBLYGIADAU ARIANNOL

**8.1** Does dim goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma. Serch hyn, efallai bydd costau ac adnoddau sydd eu hangen ar wasanaethau er mwyn gwireddu'r Cynllun Gweithredu.

## 9.0 GOBLYGIADAU'R IAITH GYMRAEG

**9.1** Cafodd Asesiad Effaith y Gymraeg ei gwblhau ar gyfer prif Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027 ac mae modd bwrw golwg arno yma.

## 10.0 GOBLYGIADAU CYFREITHIOL A DEDDFWRIAETH BERTHNASOL

10.1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol ar gyfer y Gymraeg 2015 sy'n rheoleiddio'r gwaith yma. Mae'r strategaeth hefyd yn gysylltiedig â'r Strategaeth Mwy Na Geiriau (fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol Cymraeg) a Chynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (o dan y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013).

## 11.0 CASGLIAD

11.1 Byddai'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27 a'r Cynllun Gweithredu yn ychwanegu at y gwaith da gafodd ei wneud gan wasanaethau'r Cyngor a'n partneriaid yn rhan o'r strategaeth gyntaf. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg i drigolion Rhondda Cynon Taf.

11.2 Dyma gyfle i'r Pwyllgor Craffu ystyried y cynllun gweithredu ac ymateb iddo cyn iddo gael ei drafod gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg.